Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Etholiad
Election
2019

Cwestiwn ac Ateb Etholiadol: Cyfle i ofyn ein cwestiynau i'r ymgeiswyr



Llawlyfr cam wrth gam ar gyfer cynnal eich cyfarfod cyhoeddus lleol eich hun gydag ymgeiswyr etholiadol

www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019

Dros y deugain mlynedd ddiwethaf daeth eglwysi ar draws y wlad ynghyd i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol: cyfarfodydd lle gall pobl wrando ar yr ymgeiswyr sy'n gobeithio eu cynrychioli a'u holi. Mae cyfarfodydd dan nawdd yr eglwysi'n rhoi cyfle i drafod materion gwleidyddol o ddifrif ar dir amhleidiol.

Beth yw cyfarfod cwestiwn ac ateb (C&A) gydag ymgeiswyr etholiadol?

Cyfarfod yw hwn lle bydd ymgeiswyr etholiadol neu bleidiau'n trafod polisïau ac yn ateb cwestiynau oddi wrth y gynulleidfa. Mae cyfarfodydd felly'n rhoi cyfle i etholwyr glywed barn yr ymgeiswyr neu'r pleidiau mewn etholaeth benodol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn galw cyfarfodydd o'r fath yn 'hustyngau'.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig gwybodaeth a chyngor ynghylch sut i gynllunio cyfarfod C&A yn lleol. Mae'n hawgrymiadau wedi'u seilio ar brofiadau pobl sydd wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr yn y gorffennol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu cyfarfod cyhoeddus gydag ymgeiswyr, ewch i www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019 i gofrestru'ch diddordeb.

Wrth gofrestru digwyddiad bydd angen i chi gadarnhau ei fod yn cael ei drefnu gan eglwysi neu gyrff sy'n gysylltiedig ag eglwysi (gan gynnwys mewn cydweithrediad ag eraill) a'i fod yn gyfarfod cyhoeddus annetholus, fel yr eglurir isod.

Cynhelir Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ddydd Iau Rhagfyr 12

Bydd ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol yn dechrau'n 'swyddogol' ar ddiwedd sesiwn bresennol y Senedd ar Dachwedd 5ed – ond y gwir yw bod ymgyrchu ar gyfer yr etholiad wedi dechrau'n barod. Gallwch felly ddechrau ar y gwaith o gynllunio'ch digwyddiad nawr!

Y camau cyntaf

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gweithio orau pan gânt eu trefnu'n eciwmenaidd, felly'r peth cyntaf i'w wneud yw cysylltu â'ch grŵp Cytûn neu Eglwysi Ynghyd lleol, neu os nad yw hynny'n bosibl â chynrychiolwyr o blith gwahanol eglwysi. Cysylltwch â chymaint ag y gallwch o eglwysi o fewn eich etholaeth i weld os gallwch weithio ar y cyd. Ystyriwch a ydych hefyd am wahodd aelodau cymunedau crefyddol eraill neu gyrff dinesig i fod yn rhan o'r broses. Gallwch gyfarfod cyn gynted ag y bo modd – ond, o gofio'r amserlen dynn yn 2019, y tebygrwydd yw y bydd angen dirprwyo llawer o'r trefnu i nifer fach o bobl, gan gadw pawb mewn cysylltiad trwy e-bost neu ffôn.

Cydweithio ag eraill sydd â diddordeb mewn trefnu cyfarfod C&A etholiadol

Mae'r drefn gofrestru ar wefan Cytûn yn eich galluogi i weld manylion cyswllt unigolion a grwpiau eraill sydd â diddordeb mewn trefnu cyfarfod, er mwyn i chi allu cysylltu â'ch gilydd a threfnu cydweithio. Yn ddelfrydol, dylai fod **un cyfarfod etholiadol wedi'i drefnu gan yr eglwysi ym mhob etholaeth**, ond, wrth gwrs, ni fydd yn gweithio felly bob tro. Bydd rhai cyrff eciwmenaidd ond yn cwmpasu rhan o etholaeth, tra gallai eraill fod yn gweithio dros sawl etholaeth. Os ydych yn byw mewn etholaeth fawr iawn gallai fod yn fwy ymarferol i drefnu dau gyfarfod, un ym mhob pen i'r etholaeth.

Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, bydd Cytûn, ar y cyd â nifer o bartneriaid eciwmenaidd, yn llunio papurau ynghylch meysydd allweddol cysylltiedig â'r Etholiad Cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys syniadau am gwestiynau i ysgogi trafodaeth â'r ymgeiswyr. Gellir lawrlwytho copïau (ynghyd â deunydd briffio etholiadol gan eglwysi a chyrff eglwysig) o wefan etholiadol Cytûn yn **www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019**

Pryd ddylid cynnal y cyfarfod?

Yn y gorffennol, mae ymgeiswyr wedi ymateb yn dda i gyfarfodydd a gynhaliwyd ar nos Sul yn ystod y cyfnod ymgyrchu ffurfiol. Os byddwch yn dewis y Sul, gellid cynnal y cyfarfod ar ôl gwasanaeth hwyrol eciwmenaidd, ond dylech wneud yn eglur bod y cyfarfod yn agored i bawb – pobl sy'n mynychu eglwys neu gapel ac eraill.

Fodd bynnag, mae'r amserlen dynn ar gyfer yr etholiad hwn yn golygu y bydd angen i chi fod yn hyblyg ynghylch yr amseru. Peidiwch â phoeni os na allwch gynnal y cyfarfod ar nos Sul. Ystyriwch ddyddiau posibl a cheisiwch ddewis dyddiad eithaf cynnar. Gorau po gyntaf y gallwch gadarnhau'r dyddiad â'r ymgeiswyr!

Cofiwch ddiweddaru'ch cofnod ar wefan www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019 gyda'r dyddiad, yr amser a manylion y lleoliad cyn gynted ag y byddant wedi'u cadarnhau. Gallwch e-bostio gethin@cytun.cymru ag unrhyw ymholiadau.

Pwy ddylai lywyddu yn y cyfarfod?

Ceisiwch feddwl am rywun diduedd sy'n ennyn parch eich cymuned i gadeirio'r cyfarfod. Gallai fod yn rhywun amlwg yn yr eglwysi, yn weithiwr proffesiynol neu'n arweinydd yn y gymuned. Mae'n hollbwysig nad yw pobl yn uniaethu nac yn cysylltu'r Cadeirydd ag unrhyw blaid wleidyddol. Mae hefyd yn bwysig bod y Cadeirydd yn gallu rheoli'r cyfarfod yn effeithiol, gan sicrhau y clywir ystod lawn o safbwyntiau.

Bydd angen briffio'r Cadeirydd yn drwyadl. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol rhoi copi iddo/iddi o'r llawlyfr hwn a deunydd perthnasol arall.

Trefnu cyfarfod cyhoeddus 'annetholus' ag ymgeiswyr

Mae'r Comisiwn Etholiadol, sy'n rheoleiddio gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau, wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr (hustyngau). Yn ôl y canllawiau, mae dau fath o'r cyfarfodydd hynny:

- Hustyngau annetholus, nad ydynt wedi'u rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth etholiadol.
- Hustyngau detholus, a ystyrir yn weithgareddau 'rheoledig' o dan ddeddfwriaeth etholiadol ac sy'n gorfod cydymffurfio ag amodau ychwanegol, gan gynnwys cyfyngiadau ar wario.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn trefnu cyfarfod cyhoeddus annetholus gydag ymgeiswyr.

Golyga **hustyngau annetholus** gyfarfod na fyddid yn rhesymol yn ei ystyried yn gyfarfod a fwriedir i ddylanwadu ar etholwyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu polisïau neu faterion penodol. Ym marn y Comisiwn Etholiadol, bydd hustyngau yn annetholus os byddwch fel trefnydd wedi gwahodd yr holl ymgeiswyr y gwyddys eu bod yn sefyll yn yr etholaeth neu os bydd gennych resymau diduedd pam nad ydych yn gwahodd rhai ymgeiswyr neu bleidiau.

Os ydych yn cynnal cyfarfod C&A, a'ch bod am sicrhau ei fod yn gyfarfod hustyngau annetholus, y ffordd symlaf yw gwahodd yr holl ymgeiswyr perthnasol yn yr ardal neu'r holl bleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn yr etholiad, a chaniatáu i bawb sydd yn mynychu gyfle cyfartal i gyfranogi. Ond efallai na fydd hynny bob tro'n ymarferol. Er enghraifft, gallai cymaint o ymgeiswyr neu bleidiau fod yn sefyll fel y byddai'n anodd rheoli'r cyfarfod.

Nid oes raid i'r trefnydd sicrhau bod yr holl ymgeiswyr neu bleidiau'n mynychu'r digwyddiad, dim ond rhoi gwahoddiad i bawb.

Os ydych yn penderfynu peidio â gwahodd yr holl ymgeiswyr, mae rhai argymhellion arfer da y dylech eu dilyn i sicrhau nad yw eich cyfarfod yn hyrwyddo rhai ymgeiswyr neu bleidiau ar draul eraill. Mae'r rheini'n cynnwys:

- Dylech fod yn gallu rhoi rhesymau diduedd pam nad ydych wedi gwahodd rhai ymgeiswyr neu bleidiau. Dylech fod yn barod i egluro'ch rhesymau i'r ymgeiswyr neu bleidiau nad ydych wedi'u gwahodd.
- Dylech sicrhau bod yr ymgeiswyr neu bleidiau rydych wedi'u gwahodd yn cynrychioli amrywiaeth resymol o safbwyntiau, o wahanol rannau o'r sbectrwm gwleidyddol.
- Dylech ganiatáu cyfle teg i bob ymgeisydd neu gynrychiolydd plaid sy'n mynychu i ateb cwestiynau a, phan fo'n briodol, i ymateb i bwyntiau a godir yn eu herbyn gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr eraill.
- Dylech ddweud wrth y gynulleidfa yn y cyfarfod pa ymgeiswyr neu bleidiau sydd yn sefyll na chafodd wahoddiad i fod yno.

Gallai rhesymau diduedd godi o'r ystyriaethau canlynol:

- Amlygrwydd rhai pleidiau neu ymgeiswyr uwchlaw eraill yn lleol.
- Y nifer o gynrychiolwyr etholedig yn lleol neu genedlaethol.
- Canlyniadau etholiadau diweddar yn yr ardal.
- Adnoddau ac ystyriaethau ymarferol eraill sy'n cyfyngu ar y nifer o ymgeiswyr neu gynrychiolwyr y gellir eu gwahodd.
- Pryderon ynghylch diogelwch.

Nid yw rhesymau diduedd yn cynnwys rhesymau megis eich barn ynghylch polisïau ymgeisydd neu blaid.

Trefnu hustyngau detholus

Yn y gorffennol, mae rhai eglwysi wedi gwneud datganiadau bod rhai pleidiau eithafol a hiliol yn annerbyniol. Efallai y byddwch am gymryd y rheini i ystyriaeth a pheidio â rhoi llwyfan i safbwyntiau felly – ond os byddwch yn gweithredu felly **rhaid** i chi ddarllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ynghylch trefnu cyfarfodydd cyhoeddus detholus gydag ymgeiswyr, sydd ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/pdf_file/sp-hustings-npc-ukpge-welsh.pdf

NI FYDDWN yn gallu cofrestru hustyngau detholus ar wefan Cytûn.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch pwy i'w gwahodd dylech drafod y rheini â'ch grŵp eciwmenaidd lleol a chysylltu am gyngor â Swyddog Canlyniadau'ch Etholaeth drwy'ch awdurdod lleol neu â'r Comisiwn Etholiadol yn http://www.electoralcommission.org.uk/cymru

Sut mae canfod pwy yw'r ymgeiswyr?

Fe fydd yr enwebiadau ar gyfer yr etholiad yn cau ar Ddydd Iau Tachwedd 21, gyda 24 awr yn dilyn ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau. Erbyn hynny, fe ddylai manylion yr ymgeiswyr ar gael ar wefannau'r prif bleidiau.

Y Blaid Geidwadol
http://www.welshconservatives.com

Plaid Cymru
https://www.plaid.cymru

Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
http://www.demrhyddcymru.cymru/

Y Blaid Lafur
http://www.welshlabour.org.uk/

Plaid Brexit
http://www.thebrexitparty.org

Y Blaid Werdd
https://wales.greenparty.org.uk/

Yn fuan ar ôl Tachwedd 21, fe fydd papurau newydd a gwefannau newyddion yn cyhoeddi rhestri cyflawn o'r ymgeiswyr. Fe gyhoeddir enwau a manylion cyswllt yr ymgeiswyr hefyd gan Swyddog Canlyniadau yr etholaeth – ewch i wefan eich awdurdod lleol am y manylion.

Cyn hynny, gallwch gysylltu â swyddfeydd cenedlaethol y pleidiau gwleidyddol i ganfod a oes gan y blaid drefniadaeth leol yn eich etholaeth a fydd yn gallu dweud wrthych pwy yw eich ymgeisydd lleol. Bydd gan lawer o ymgeiswyr eu gwefannau eu hunain.

Mae sôn y bydd rhai o'r pleidiau (megis Plaid Brexit a'r Blaid Werdd) yn dewis peidio â chystadlu ymhob sedd yn 2019, ac o bosibl y byddant yn cefnogi ymgeisydd arall. Bydd rhaid i chi ddilyn y datblygiadau hyn drwy'r cyfryngau lleol.

Cyn gynted ag y gwyddoch enw a manylion cyswllt ymgeisydd, cysylltwch ag ef/hi â gwahoddiad cychwynnol, gan egluro amcanion y cyfarfod a chan nodi'r amser a'r dyddiad arfaethedig. Dylid cadarnhau'r trefniadau â phob ymgeisydd cyn gynted ag y bo modd ac anfon manylion yr ymgeiswyr eraill sy'n cael gwahoddiad.

Cofiwch wirio manylion unrhyw ymgeiswyr eraill gan eich Swyddog Canlyniadau unwaith y bydd yr enwebiadau wedi cau ar Dachwedd 21. Unwaith y bydd yr enwebiadau wedi cau bydd yr ymgeiswyr a'u hasiantiaid etholiadol yn brysur dros ben a dyna pam mae'n well gwneud cymaint ag y gellir o'r gwaith trefnu cyn hynny.

Beth os yw ymgeisydd yn gwrthod mynychu'r cyfarfod?

Unwaith y byddwch yn gwybod pwy rydych yn eu gwahodd, cysylltwch â'r ymgeiswyr, gan nodi pwy arall a wahoddwyd i'r cyfarfod.

Os bydd ymgeisydd neu blaid yn cael gwahoddiad, ac yn gwrthod neu'n methu mynychu'r cyfarfod, dylech gyflwyno'u hymddiheuriad ar ddechrau'r cyfarfod. Efallai byddant am anfon datganiad byr i'w ddarllen yn y cyfarfod. Mater i'r grŵp trefnu ynghyd â'r Cadeirydd yw penderfynu ynghylch hynny.

Sut mae rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod?

Ceisiwch sicrhau bod y cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod yn cyrraedd cymaint o bobl ag y gellir mewn cymaint o ffyrdd ag y gellir – a hynny cyn gynted ag y bo modd.

Cysylltwch â'r holl eglwysi yn yr ardal leol, gan ofyn iddynt arddangos posteri a rhoi manylion y cyfarfod yn eu newyddlen wythnosol. Os yw'n bosibl, ceisiwch sicrhau bod aelodau pob enwad neu eglwys yn dod yn gyfrifol am y cyhoeddusrwydd o fewn eu heglwys eu hunain. Peidiwch â chyfyngu'r cyhoeddusrwydd i eglwysi sy'n rhan o'ch grŵp Cytûn neu'r grŵp trefnu – ceisiwch gyrraedd yr holl eglwysi yn yr ardal.

Gwnewch restr o fannau cyhoeddus lle gellid hysbysebu manylion y cyfarfod, e.e. llyfrgelloedd, meddygfeydd, swyddfeydd post, canolfannau cymunedol, ffenestri siopau a ffenestri tai aelodau'r eglwysi. Gallwch hefyd ofyn i'r cyfryngau lleol hysbysebu'r digwyddiad. Dywedwch wrth yr ymgeiswyr y byddwch yn gwneud hynny ac anfonwch ddatganiad i'r wasg yn fuan. Gall y datganiad i'r wasg fod yn syml (yn nodi Beth, Pryd, Lle, Pwy a Pham) a dylid ei anfon at bapurau newydd, gwefannau a gorsafoedd radio lleol. Cofiwch gynnwys rhifau ffôn cyswllt a chyfeiriadau e-bost fel y gallant holi am fwy o fanylion, neu ddanfon cwestiynau os ydych am eu casglu o flaen llaw. Mae'n bwysig pwysleisio nad digwyddiad ymgyrchu yw'r cyfarfod, er y gallai eglwysi a chyrff Cristnogol fod yn ymgyrchu'n frwd ar faterion penodol ar adegau eraill.

Penderfynwch sut i wneud y defnydd gorau o gyfryngau electronig i gynorthwyo â'ch cyhoeddusrwydd, er enghraifft, blogiau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Efallai y byddwch am hysbysu'r heddlu bod y cyfarfod yn cael ei gynnal.

Beth am y lleoliad?

Efallai y byddwch yn penderfynu cynnal y cyfarfod mewn eglwys leol, neu rywle arall sy'n fwy cyfleus. Dylai'r lleoliad fod yn hawdd dod o hyd iddo, gyda mynediad i bobl ag anableddau, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, a gorau oll os bydd dolen glywed.

Sain – Mae'n bwysig bod â system sain addas. Gwiriwch hynny ymlaen llaw ac wedyn penodi rhywun i fod yn gyfrifol am hynny ar y noson. Bydd meicroffon symudol (a rhywun i fynd â'r meic o gwmpas) yn ei gwneud yn llawer haws i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau, sy'n rhan annatod o'r holl broses.

Cyfieithu – Mae'n arfer da sicrhau fod ymgeiswyr ac aelodau o'r cyhoedd yn gallu siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac y gall pawb eu deall. Mewn rhai ardaloedd fe all fod yn werth ystyried system cyfieithu ar y pryd gyda chyfieithydd proffesiynol, neu logi offer a gofyn am wirfoddolwr cymwys i gyfieithu. Mewn ardaloedd eraill, bydd cyfieithu olynol yn dderbyniol ar gyfer cyfraniadau anfynych yn y Gymraeg.

Stiwardiaid – Penderfynwch faint o stiwardiaid y bydd eu hangen arnoch i groesawu pobl ac i'w cynorthwyo. Penderfynwch a fyddwch yn gweini te a choffi, a phwy fydd yn gwneud. Ceisiwch gael gwirfoddolwyr o amrywiaeth o eglwysi.

Cynnal y cyfarfod…

Mater i'r grŵp cynllunio yw amserlen y cyfarfod.

Dyma gynnig dau strwythur posibl – cyfarfod 'hustyngau' traddodiadol a chyfarfod seiliedig ar hanesion unigolion.

Patrwm hustyngau

- Croeso gan y Cadeirydd, a fydd hefyd yn egluro trefn y cyfarfod. Dylid pwysleisio y dylai'r gynulleidfa wrando ar ei gilydd ac ar yr ymgeisyddion, ac na chaniateir torri ar draws.
- Y Cadeirydd yn cyflwyno pob ymgeisydd yn fyr yn ôl enw a phlaid.
- Cyflwyniad i'r eglwysi neu'r cyrff sy'n noddi'r digwyddiad.
- Datganiad byr gan bob ymgeisydd (cwpwl o funudau).
- Cwestiynau o'r llawr, gyda chyfle i bob ymgeisydd ymateb.
- Ychydig frawddegau i gloi gan bob ymgeisydd.

Cofiwch y gall fod 6 neu ragor o ymgeiswyr yno. Bydd angen i chi sicrhau y cedwir y datganiadau a'r atebion o fewn y cyfyngiadau amser. Os nad yw eich Cadeirydd yn dymuno cadw rheolaeth ar y cyfarfod a chadw golwg ar yr amser yr un pryd gallech benodi rhywun i fod yng nghefn yr ystafell i ddangos cerdyn pan mae gan y siaradwr funud ar ôl ac eto pan mae'n amser gorffen.

Ymhlith yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan yn www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019 mae papurau briffio ar amrywiaeth o feysydd perthnasol i'r Etholiad Cyffredinol a chwestiynau y gellid eu gofyn yn cyfarfod. Gellid defnyddio'r adnoddau hynny i ysgogi trafodaeth cyn y digwyddiad, neu gellid crynhoi'r deunydd a'i ddosbarthu i'r gynulleidfa ar y noson.

Mae bob amser yn syniad da trefnu rhywun i ofyn y cwestiwn cyntaf – gallai pobl fod yn araf i gychwyn ond byth pethau'n cynhesu'n ddigon buan! Er mai'r eglwysi sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn, nid cyfarfodydd ar gyfer yr eglwysi'n unig mohonynt felly dylid annog pobl o bob rhan o'r gymuned i fynychu a chyfranogi.

Penderfynwch sut rydych am ymdrin â chwestiynau:

- Efallai y byddwch am gasglu cwestiynau cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ystod eang o faterion.
- Neu ydych chi am i aelodau'r gynulleidfa eu rhoi mewn ysgrifen i'r Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod neu yn ystod y digwyddiad? Bydd hynny'n golygu dethol y cwestiynau'n gyflym tra byddir yn cyflwyno'r ymgeiswyr.
- Ynteu a ydych yn hapus i dderbyn cwestiynau o'r llawr? Beth bynnag y byddwch yn ei benderfynu, dylid esbonio'r drefn yn eglur wrth y gynulleidfa ar ddechrau'r cyfarfod.

Efallai bydd rhai materion a fydd yn addas ar gyfer cwestiwn dilynol – yn enwedig lle gallai cwestiwn mwy penodol ddilyn un cyffredinol. Ond dylid cadw mewn cof, hyd yn oed os mai ond dau funud yr un a roir i bum ymgeisydd ateb, y bydd pob cwestiwn yn cymryd deng munud.

Cyfarfod seiliedig ar hanesion etholwyr

Mae'r fformat hwn yn gofyn am baratoi gofalus cyn y cyfarfod, ond fe all fod yn fuddiol iawn i'r ymgeiswyr a'r gynulleidfa fel ei gilydd.

- Croeso gan y Cadeirydd, a fydd hefyd yn egluro trefn y cyfarfod.
- Y Cadeirydd yn cyflwyno pob ymgeisydd yn fyr yn ôl enw a phlaid.
- Cyflwyniad i'r eglwysi neu'r cyrff sy'n noddi'r digwyddiad.
- Datganiad byr gan bob ymgeisydd (cwpwl o funudau).
- Unigolyn o'r etholaeth, a ddewiswyd ymlaen llaw gan y grŵp trefnu, yn cyflwyno hanes – naill ei hanes ei hun neu aelod o'r teulu, neu rywun y maent yn gweithio gyda nhw yn broffesiynol. Bydd yr hanes yn codi materion y gallai gwleidyddion San Steffan fod â dylanwad drostynt (felly ni ddylai ganolbwyntio'n bennaf ar faterion megis addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol sydd yn gyfrifoldeb i Gynulliad a Llywodraeth Cymru). Rhaid i'r hanes gael ei gyflwyno **mewn 4 munud neu lai** – felly rhaid i'r siaradwyr gael eu paratoi'n dda ymlaen llaw. Ymhlith hanesion addas fyddai – teulu a effeithiwyd gan y 'dreth llofftydd', sancsiynau budd-daliadau neu newidiadau i fudd-daliadau'r anabl; teulu o ffoaduriaid, neu deulu sydd wedi cael anhawster gyda fisas ar er mwyn aduno gydag aelodau o'r teulu sydd dramor; teulu o ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n poeni am eu dyfodol yng Nghymru; gŵr busnes sy'n poeni – neu'n cyffroi – am oblygiadau y DU yn gadael yr UE. Mae myrdd o bosibiliadau.
- Rhoddir 2 funud yr un i'r ymgeisyddion esbonio sut fyddai polisïau eu plaid o gymorth a/neu sut y byddent yn gallu helpu fel AS.
- Fe all y Cadeirydd, os yw amser yn caniatáu, arwain trafodaeth fwy cyffredinol am y materion a godwyd, a chaniatáu i ymgeisyddion ymateb i bwyntiau a godwyd gan eraill.
- Rhoddir cyfle *byr* i'r sawl adroddodd eu hanes ymateb i'r hyn a ddywedwyd.
- Adroddir ail hanes – yn codi materion gwahanol – a gwahoddir ymatebion, fel uchod.
- Trydydd hanes dim ond os yw amser yn caniatáu.
- Ychydig frawddegau i gloi gan bob ymgeisydd.

Ac yn olaf …

Gadewch i ni wybod sut aeth pethau!
Gall yr eglwysi ddefnyddio unrhyw awgrymiadau ar gyfer yr ymgyrch etholiadol nesaf.

Diolch am eich diddordeb mewn trefnu cyfarfod etholiadol. Gobeithiwn y bydd yn llwyddiant ac yn cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer y trafod a'r cnoi cil ar faterion gwleidyddol sy'n rhan annatod o gyfranogi o ddifrif yn y broses ddemocrataidd.

Gellir cael gwybodaeth a chymorth pellach yn www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019
A chan y Comisiwn Etholiadol
http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/party-or-campaigner/non-party-campaigners

Rhestr wirio

	Camau i'w cymryd nawr – neu cyn gynted ag y bo modd.	**Yn y 2-3 wythnos cyn y cyfarfod**
Gwefan	Cofrestrwch eich cynlluniau hyd yma ar y wefan www.cytun.co.uk/hafan/etholiad-2019	Sicrhewch fod eich cofnod ar y wefan wedi'i ddiweddaru â dyddiad, amser a lleoliad eich cyfarfod etholaethol.
Grŵp Cynllunio	Cysylltwch â'r Grŵp Cytûn neu Eglwysi Ynghyd ac ag eglwysi eraill o fewn eich etholaeth. Ffurfiwch grŵp cynllunio a chynnal cyfarfod cychwynnol. Cytunwch ar restr o dasgau.	Cyfarfodydd/cyswllt rheolaidd.
Dyddiad	Penderfynwch ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod.	Cadarnhewch y dyddiad â swyddfeydd yr ymgeiswyr dros y ffôn neu drwy e-bost.
Ymgeiswyr	Canfyddwch pwy yw'r ymgeiswyr ar gyfer y prif bleidiau ac anfonwch wahoddiad iddynt i'r cyfarfod etholiadol.	Unwaith y bydd enwebiadau wedi cau, mynnwch gopi o'r rhestr ymgeiswyr derfynol. Anfonwch wahoddiad at unrhyw ymgeiswyr nad ydych eisoes wedi cysylltu â hwy. Briffiwch yr holl ymgeiswyr ynghylch trefn y cyfarfod (gan gynnwys y cyfyngiadau amser pendant).
Lleoliad	Canfyddwch leoliad addas a'i gadarnhau.	Gwiriwch y system sain (a chyfieithu) a phenodwch rywun i fod yn gyfrifol amdani ar y noson. Penderfynwch lle bydd yr ymgeiswyr yn eistedd a pharatowch labeli enw/plaid i'w gosod o'u blaen.
Cadeirio	Penderfynwch ar rywun i gadeirio a chadarnhewch y dyddiad ag ef/hi.	Sicrhewch fod y Cadeirydd yn gwbl gyfarwydd â'r amserlen. Penodwch rywun i gadw amser gyda stopwats a cherdyn os bydd angen.
Hanesion etholwyr	Os ydych chi'n defnyddio'r fformat 'adrodd hanesion' (tud. 5), ceisiwch syniadau gan eglwysi a phrosiectau lleol am ddau neu dri hanes gafaelgar.	Sicrhewch fod gan y siaradwyr sgript yr un y gellir ei gyflwyno'n effeithiol mewn 4 munud neu lai. Byddwch yn barod i drefnu amser ymarfer.
Cwestiynau'r etholwyr	Os ydych yn trefnu cyfarfod 'traddodiadol' gyda chwestiynau wedi eu cyflwyno ymlaen llaw, trefnwch gyfeiriad e-bost a man cyhoeddus i adael y cwestiynau yn ddiogel (e.e. eglwys leol sydd ar agor yn rheolaidd, neu lyfrgell gyhoeddus).	Gosodwch ddyddiad cau ar gyfer y cwestiynau, a threfnwch grŵp bychan i edrych trwy'r cwestiynau a dewis amrediad da o bynciau. Ceisiwch gadw at bynciau y mae gan wleidyddion San Steffan gyfrifoldeb amdanynt (felly osgowch faterion sydd wedi eu datganoli'n llawn megis addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol; a materion llywodraeth leol, megis casglu sbwriel neu trwsio heolydd lleol).
Stiwardiaid	Recriwtiwch stiwardiaid.	Briffiwch y stiwardiaid ar groesawu a gweini lluniaeth. Llungopïwch bapurau briffio ar gyfer y gynulleidfa os bydd angen.
Cyhoeddusrwydd	Cynlluniwch eich cyhoeddusrwydd. Cysylltwch ag eglwysi eraill yn lleol. Dosbarthwch raghysbysiadau, erthyglau ar gyfer cylchlythyrau, datganiad i'r wasg. Cynlluniwch a lluniwch bosteri.	Dosbarthwch bosteri/gwybodaeth i'w harddangos. Anfonwch ddatganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol. Hyrwyddwch y digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol (trydar, Facebook ac ati).

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Eglwysi Together in Wales Cyfyngedig" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071

Swyddog Polisi: Ffôn: 029 2046 4378 E-bost: gethin@cytun.cymru
Ymholiadau cyffredinol: Ffôn: 029 2046 4204 E-bost: post@cytun.cymru